monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir, Y Rhadyr,
Brynbuga, Sir Fynwy
NP15 1GA
Monmouthshire County Council
County Hall, Y Rhadyr, Usk,
Monmouthshire
NP15 1GA

Ffôn/Tel: 01633 644 644
Web/Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk
Ein Cyf/Our ref:
Eich Cyf/Your ref:

# GWNEUD CAIS AM LE MEWN MEITHRINFA – MEDI 2022

## GWYBODAETH I RIENI

Darllenwch y nodiadau yma'n ofalus cyn llenwi'ch ffurflen gofrestru os gwelwch yn dda.

Rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y llyfryn Cychwyn yn yr Ysgol 2022/23 gan bod hwn yn cynnwys gwybodaeth fanylach ynglŷn â'r broses gwneud cais. Mae copi o'r llyfryn ar gael ar www.monmouthshire.gov.uk neu gellir anfon copi trwy'r post.

**Pwysig:** Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi ffurflen gais am le mewn meithrinfa er mwyn i'ch plentyn allu cychwyn yn y feithrinfa ym mis Medi 2022. **Ni fydd** modd i'ch plentyn gychwyn mewn meithrinfa oni bai eich bod wedi dilyn y broses gwneud cais. P'un a'ch bod yn dewis gwneud cais ar-lein neu ar bapur, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddychwelyd yn ôl cyn y dyddiad cau, sef 15ydd Medi 2021 am hanner nos, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posib i'ch plentyn gael lle yn y feithrinfa yr ydych yn ei ffafrio.

### I sawl meithrinfa y dylwn wneud cais?

Gall rhieni ddewis hyd at dair meithrinfa (a nodi pa rai y maent yn eu ffafrio fwyaf), a bydd y rhain yn cael eu hystyried, os yw'r cais am le yn y feithrinfa yr ydych yn ei ffafrio'n cael ei wrthod.

Anogir rhieni / gwarchodwyr i roi mwy nag un meithrinfa ar eu ffurflen gais. Pe byddai'ch cais am le yn y feithrinfa yr ydych yn ei ffafrio'n cael ei wrthod, byddai'n rhaid i'r awdurdod roi lle i'ch plentyn yn y feithrinfa agosaf at eich cartref, oni bai eich bod wedi rhoi mwy nag un dewis i lawr. Os ydych yn dweud wrthym, ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, pa feithrinfeydd eraill yr hoffech i'ch plentyn fynd iddynt, mae'n bosib na fydd lle ar ôl yn ynddynt.

Mae Cyngor Sir Fynwy'n gweithredu ar sail cynllun dewis cyfartal. Golyga hyn y bydd pob un o'ch dewisiadau'n cael eu hystyried ar sail gyfartal, ac yn cael eu blaenoriaethu'n unol â'r meini prawf sy'n cael eu defnyddio gan yr Awdurdod Lleol, os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y meithrinfeydd (meini prawf gor-alw). Os y gellir cynnig lle i'ch plentyn mewn mwy nag un o'r meithrinfeydd yr ydych wedi eu dewis, yna byddwch yn cael cynnig lle yn y feithrina yr ydych yn ei ffafrio fwyaf.

### Pwy ddylai wneud y cais?

Mae'n rhaid i geisiadau am le mewn meithrinfa gael eu gwneud gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Mae'n rhaid i bawb sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, gytuno ar y cais sy'n cael ei gyflwyno. Os oes unrhyw ddadlau rhwng yr

rheiny sydd â chyfrifoldeb rhiant ynglŷn â’r cais, ni fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu parhau i brosesu’r cais nes mae’r anghytundeb wedi ei ddatrys.

**Cyfeiriad – beth os ydw i’n symud?**

Gwnewch yn siŵr mai cyfeiriad cartref parhaol y plentyn sy’n cael ei roi ar y ffurflen os gwelwch yn dda. Dyma’r cyfeiriad y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei ddefnyddio er mwyn gwneud penderfyniad ynglŷn â chais eich plentyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cymryd camau pendant er mwyn gwirio’r cyfeiriad sydd wedi ei roi ar y ffurflen gais.

Bydd angen i rieni / gwarchodwyr sydd wrthi’n symud cartref roi gwybod i’r Awdurdod Lleol am hyn **pan maent yn gwneud y cais**, a darparu tystiolaeth sy’n gwirio’r cyfeiriad newydd. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr mai’r cyfeiriad newydd fydd yn cael ei ystyried. Tystiolaeth addas fyddai copi o’r cytundebau cyfnewid (os ydych yn prynu) neu gytundeb tenantiaeth tymor hir (os ydych yn rhentu). Er mwyn i’r cais gael ei ystyried yn gais sydd wedi ei dderbyn ‘ar amser’, bydd angen iddo gael ei gyflwyno, ynghyd â rhybudd am newid i’r cyfeiriad, cyn y dyddiad cau. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i’r Awdurdod Lleol, cyn y dyddiad cau, eich bod yn bwriadu symud i gyfeiriad newydd, bydd eich cais yn cael ei ystyried yn gais sydd wedi ei gyflwyno’n hwyr.

Bydd angen i rieni / gwarchodwyr sydd wrthi’n symud, ond sy’n methu darparu tystiolaeth sy’n gwirio eu cyfeiriad newydd, wneud yn siŵr bod eu cais yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau, a gwneud yn siŵr bod gwybodaeth yn y cais ynglŷn â’r bwriad i symud. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cadw mewn cysylltiad â’r rhieni / gwarchodwyr er mwyn cael cadarnhad o gyfeiriad cartref newydd y plentyn ar ôl iddynt symud. Fodd bynnag, bydd angen i rieni ddarparu tystiolaeth i’r Awdurdod Lleol er mwyn cadarnhau eu cyfeiriad newydd, dim hwyrach na 6 wythnos ar ôl y dyddiad cau er mwyn i’r cyfeiriad newydd gael ei ystyried fel rhan o’r cais.

*Cymerwch amser i edrych ar y Llyfryn Cychwyn yn yr Ysgol 2022/23 am fwy o fanylion ynglŷn â’r broses os ydych yn ystyried newid cyfeiriad.*

**Beth fydd yn digwydd os yw fy nghais yn cael ei ystyried yn ‘gais sydd wedi ei gyflwyno’n hwyr’?**

Bydd unrhyw gais sy’n cael ei gyflwyno ar ôl y dyddiad cau, neu unrhyw gais sydd yn dal heb ei gwblhau ar y dyddiad cau, yn cael ei brosesu’n unol â threfniadau ceisiadau hwyr.

Os oes newid i amgylchiadau wedi bod, sydd yn effeithio ar statws y cais o fewn y meini prawf gor-alw, bydd y cais yn cael ei ystyried yn gais sydd wedi ei gyflwyno’n hwyr, os yw’r newidiadau yma’n dod i sylw’r Awdurdod ar ôl y dyddiad cau.

Nodwch, os gwelwch yn dda, y gallai ceisiadau sy’n cael eu hystyried yn ‘geisiadau sydd wedi eu cyflwyno’n hwyr’, arwain at fethu cael lle yn y feithrinfa yr ydych yn ei ffafrio. Mae hyn oherwydd y bydd pob cais sydd wedi ei gyflwyno gyda’r dystiolaeth briodol, cyn y dyddiad cau, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sydd wedi eu derbyn ar ôl y dyddiad cau.

**Sut y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar fy nghais?**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio gyda rhieni er mwyn ceisio sicrhau bod eich plentyn yn cael lle yn un o'r meithrinfeydd yr ydych yn eu ffafrio. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl.

Rydym yn eich cynghori'n gryf i roi mwy nag un dewis i lawr ar eich ffurflen gais, er mwyn i ni allu ystyried y rhain os nad ydych yn llwyddo i gael lle yn y feithrinfa yr ydych yn ei ffafrio. Bydd eich dewisiadau'n cael eu hystyried yn gyfartal, yn unol â meini prawf gor-alw'r Awdurdod Lleol. Os oes modd cynnig lle i chi mewn mwy nag un meithrinfa, bydd lle'n cael ei gynnig i chi yn y feithrinfa yr ydych yn ei ffafrio fwyaf. Ni fyddwch dan anfantais o gwbwl os byddwch yn rhoi mwy nag un meithrinfa i lawr ar eich ffurflen gais, ond mae'n bosib y byddwch o dan anfantais os na fyddwch yn gwneud hynny.

Os y bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn mwy o geisiadau na sydd o leoedd ar gyfer y feithrinfa yr ydych yn ei ffafrio, bydd y meini prawf isod yn cael eu defnyddio i ddewis ymgeiswyr llwyddiannus:

Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)

1. Bydd plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol h.y. plant sydd dan ofal neu sydd wedi bod o dan ofal yr Awdurdod Lleol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 2-4 isod.
2. Rhoddir blaenoriaeth i seiliau meddygol neu gymdeithasol a amlygir gan asiantaethau priodol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 3-4 isod.
3. Bydd plant sydd â brawd neu chwaer perthnasol sy'n mynychu'r feithrinfa a ffafrir (nid y brif ysgol) ar adeg derbyn, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwynt 4 isod.
4. Ar ôl cymhwyso'r categorïau uchod, neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o ordanysgrifio yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn seiliedig ar agosrwydd i'r ysgol a ffafrir, wedi'i fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf.

Cymerwch amser i edrych ar y llyfryn Cychwyn yn yr Ysgol 2022/23 am wybodaeth fanylach ar feini prawf gor-alw'r Awdurdod Leol.

**Mae gan fy mhlentyn frawd neu chwaer yn y feithrinfa'n barod – a fydd hyn yn gwarantu lle iddynt?**

Bydd brodyr a chwiorydd (boed yn frodyr a chwiorydd llawn, hanner brodyr a chwiorydd, llysfrodyr neu lyschwiorydd, neu frodyr a chwiorydd maeth) sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn sy'n gwneud cais, yn cael eu hystyried yn berthnasol os fydd plentyn hŷn yn dal wedi cofrestru yn y feithrinfa pan mae'r plentyn iau yn gymwys i gychwyn.

Ond wedi dweud hyn, ni all yr Awdurdod Lleol warantu lle yn y feithrinfa yr ydych yn ei ffafrio oherwydd bod brawd neu chwaer yno'n barod. Fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r meini prawf gor-alw.

## Plant sy’n gymwys i gychwyn yn gynnar?

Gall plant sydd wedi eu geni rhwng 1af o Fedi a 31ain o Fawrth gael cynnig cychwyn yn y feithrinfa yn fuan – a hynny ar gychwyn y tymor yn dilyn eu penblwydd yn dair oed (os oes llefydd ar gael). Os hoffech gael ei ystyried ar gyfer hyn, yna nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

## Proses gwneud cais am le mewn Meithrinfa y tu allan i Sir Fynwy

Os ydych chi eisiau gwneud cais am le i’ch plentyn mewn meithrinfa y tu allan i Sir Fynwy, mae’n rhaid i chi wneud cais i’r Awdurdod Lleol perthnasol.

## Proses gwneud cais am le mewn meithrinfa nas cynhelir

Os ydych eisiau gwneud cais am le mewn meithrinfa nas cynhelir, bydd angen i chi wneud cais yn uniongyrchol iddyn nhw. Gellir dod o hyd i fanylion pellach ar www.monfis.org.uk

**Cyfrifoldeb rhieni yw gwneud yn siŵr bod ceisiadau ar-lein neu ffurflenni sy’n nodi pa feithrinfeydd yr ydych yn eu ffafrio yn cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau ar 15ydd Medi 2021 (hanner nos). Rydym yn awgrymu’n gryf eich bod yn anfon eich ffurflen mewn ffordd sydd yn eich galluogi i gael prawf gan y Cyngor bod y ffurflen wedi ei derbyn, er enghraifft *special delivery* trwy’r Post Brenhinol neu drwy ddosbarthu’r ffurflen gyda llaw i un o’n swyddfeydd. Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ffurflenni sydd yn mynd ar goll yn y post neu sy’n cael eu hanfon yn ôl os nad yw’r tal postio cywir wedi ei dalu.**